



Hysbysiad Preifatrwydd – Gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar (cynenedigol i 7 oed)

Mae gennych hawl i wybod a ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch chi, pa wybodaeth yr ydym yn ei phrosesu amdanoch chi, ar gyfer beth yr ydym yn ei defnyddio, a gyda phwy y gallwn ei rhannu. Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u cofrestru â Thrawsnewid Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae gennych hefyd yr hawl i gael copi o wybodaeth a gedwir amdanoch chi.

Darperir yr hysbysiad hwn er mwyn egluro pa wybodaeth sydd ei hangen ar y cyngor er mwyn prosesu ceisiadau i gofrestru ar gyfer gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg neu'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cyngor yn rhoi mesurau ar waith i amddiffyn preifatrwydd unigolion trwy gydol y broses hon.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau tryloyw o ansawdd uchel i bob un o'n teuluoedd cymwys ac rydym am i chi wybod sut rydym yn defnyddio data sydd gennym amdanoch chi a'ch teulu.

Mae'r hysbysiad hwn yn cwmpasu'r holl wasanaethau a gyflenwir gan dimau Trawsnewid Dechrau'n Deg a/neu'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'n timau iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg, ac mae'n darparu gwasanaethau cymorth dwys i deuluoedd â phlant rhwng 0 a 3 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru. Mae tîm Dechrau'n Deg Blaenau Gwent yn canolbwyntio ar blant ac yn cynnig anogaeth, gwybodaeth ac arweiniad i gefnogi rhieni/gofalwyr ar bob cam o ddatblygiad eu plentyn, gan ddarparu cyfleoedd, gweithgareddau a rhaglenni am ddim i ganiatáu i bob plentyn ddatblygu ei sgiliau iaith a chymdeithasol a'i ddatblygiad emosiynol a chorfforol er mwyn bod yn barod i ddechrau yn yr ysgol.

Nod Dechrau'n Deg hefyd yw ymgymryd ag atal cychwynnol ac ymyrraeth gynnar â menywod beichiog mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cymwys, er mwyn cynyddu siawns bywyd plant Blaenau Gwent. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y timau Dechrau'n Deg a grybwyllwyd uchod mewn partneriaeth â chlinigau cynenedigol yr ystyby lleol.

Bydd manylion mamau beichiog yn cael eu rhannu â staff Dechrau'n Deg / y Blynyddoedd Cynnar yng Nghyngor Blaenau Gwent gan wasanaethau mamolaeth y GIG trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae hyn yn galluogi'r rhaglenni i

gysylltu â menywod beichiog a darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Bydd y gwasanaethau hyn yn cefnogi'r fam a'i phartner yn ystod camau cynnar iawn bechiogrwydd i gefnogi bechiogrwydd iach ac adeiladu ymlyniad cryf. Nod staff Dechrau'n Deg hefyd yw cynorthwyo gyda rhai o benderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys tai, budd-daliadau ac ati, sy'n effeithio ar les y teulu.

Mae Prosiect Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar yn adeiladu ar lwyddiant Dechrau'n Deg ond yn dileu cymhwysedd a meini prawf ar gyfer cymryd rhan trwy weithio tuag at greu model integredig cynaliadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar yr adeg iawn a'r lle iawn gan yr unigolyn iawn. Mae'r prosiect hefyd yn ymestyn y gwaith gyda theuluoedd o 0 i 7 oed.

Pam mae angen eich gwybodaeth arnom?

Mae angen y wybodaeth hon er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg / Blynyddoedd Cynnar yr ydych yn gofyn amdanynt ac i alluogi'r rhaglenni i gyflawni eu sywddogaethau statudol. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am blant a rhieni sydd wedi'u cofrestru gyda ni i'n galluogi i gyflawni swyddogaethau penodol yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Rydym hefyd yn defnyddio'r data personol hwn i gynhyrchu ystadegau sy'n llywio penderfyniadau a wnawn. Defnyddir yr ystadegau hyn mewn ffordd sy'n golygu na ellir adnabod unigolion.

Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn ein helpu ni i'ch cefnogi chi a'ch teulu ac i sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol. Rydym yn defnyddio'r data hwn i wneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau priodol i chi a'ch teulu
- Mesur a yw ein gwasanaethau'n gwella bywyd plant a theuluoedd
- Ein helpu ni i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau
- Cwblhau ffurflenni ystadegol i'n cyllidwyr (Llywodraeth Cymru) i fesur perfformiad y rhaglen
- Gweinyddu ac amddiffyn arian cyhoeddus

Diben prosesu:

Pan fydd rhiant/gofalwr yn cofrestru ar gyfer gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg / y Blynyddoedd Cynnar, bydd ei wybodaeth yn cael ei storio ar gronfa ddata ddiogel o'r enw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a'i chyrru neu ei defnyddio ar sail angen gwybod neu i gynnig darpariaeth gymorth berthnasol i'r rhiant/gofalwr a'r plentyn/plant ar yr oedran / cam datblygu perthnasol. Gall y gwasanaethau a gynigir gynnwys: grwpiau cymorth i deuluoedd, clinigau babanod dan arweiniad ymwelwyr iechyd / sesiynau aros a chwarae, rhaglenni magu plant, pecynnau cymorth pwrpasol a ddarperir mewn canolfannau cymunedol neu gartref, cymorth lleferydd ac iaith, a chefnogaeth mewn perthynas â thai, cyllidebau, perthnasau, a llawer mwy. Ar gyfer teuluoedd sydd wedi cofrestru â Dechrau'n Deg, bydd rhieni/gofalwyr yn cael mynediad awtomatig at leoliadau gofal plant wedi'u hariannu'n llawn am y tymor ar ôl i'r plentyn gyrraedd 2 oed tan dymor ei ben-blwydd yn 3 oed.

Os credir, ar unrhyw gam o'r broses, y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed sylweddol, dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a all arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn olygu y bydd sawl asiantaeth, fel yr heddlu, iechyd, addysg neu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn cael mynediad at eich gwybodaeth.

Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?

Mae holl wybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

I gael gwybodaeth am rôl y rheolydd data a Swyddog Diogelu Data, ac i gael gwybod manylion cyswllt y cyngor, cyfeiriwch at y dudalen 'Diogelu Data' ar wefan y cyngor:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/diogelu-data-a-rhyddid-gwybodaeth/deddf-diogelu-data/>

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom?

Er mwyn i chi allu cofrestru a derbyn gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg / y Blynyddoedd Cynnar, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch teulu trwy eich ffurflen gofrestru.

Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

Manylion amdanoch chi, eich partner (os yw'n berthnasol) a'ch plentyn, megis:

- Enwau
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt: rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni
- Gwybodaeth am gydraddoldebau

Gwybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol i brosesu'ch cofrestriad, gan gynnwys manylion personol fel:

- Statws cyflogaeth rhieni/gofalwyr
- Anableddau
- Manylion cyswllt gweithwyr iechyd proffesiynol: meddyg teulu, ymwelydd iechyd
- Cadarnhad a ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr am y tro cyntaf
- Dewisiadau iaith cyfathrebu

Bydd ceisiadau am wasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg a ariennir yn llawn hefyd yn gofyn am wybodaeth, gan gynnwys unrhyw resymau arbennig i gefnogi'r cais i gael gwasanaethau gofal plant:

- A yw'r plentyn wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod lleol ar y gofrestr amddiffyn plant?
- A oes gan y plentyn gynllun plentyn mewn angen?

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i brosesu'ch cais a/neu gymryd camau angenrheidiol. Efallai y byddwn yn gwirio rhywfaint o'r wybodaeth yn erbyn ffynonellau eraill i sicrhau bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gywir.

Gellir gofyn am wybodaeth berthnasol arall i gefnogi anghenion eich teulu ar wahanol adegau trwy eich gweithiwr cymorth i deuluoedd neu ymwelydd iechyd. Gofynnir am gydsyniad i storio, defnyddio a rhannu'r data hwn bryd hynny. Gall y wybodaeth hon gynnwys:

- Gwybodaeth ariannol
- Gwybodaeth am ffordd o fyw
- Cofnodion gofal cymdeithasol ac iechyd
- Cofnod troseddol

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i brosesu'ch cais am wasanaethau, cefnogi'ch anghenion, a chymryd y camau angenrheidiol.

Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Er mwyn galluogi'r cyngor i brosesu'ch cais a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ar sail angen gwybod gyda sefydliadau partner, gan gynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Lleoliadau gofal plant cofrestredig Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent
- Yr Adran Addysg – ysgolion cynradd (i gynorthwyo trosglwyddo o ddarpariaethau cyn ysgol)
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Sefydliadau trydydd parti (tai, cwnsela dyled ac ati – gyda chaniatâd unigol yn seiliedig ar angen)
- Archwilwyr
- Sefydliadau ymchwil a rheoleiddwyr allanol (yr holl wybodaeth bersonol yn ddienw i amddiffyn eich hunaniaeth)

Bydd y cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodi statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus.

Beth yw sail gyfreithlon y prosesu?

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR 2016), rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r ddeddfwriaeth.

Yn yr achos hwn, gallaf gadarnhau bod y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu teuluoedd sydd wedi'u cofrestru gyda gwasanaethau Trawsnewid Dechrau'n Deg / y Blynyddoedd Cynnar fel a ganlyn:

- Mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolydd
- Cyflawni tasg gyhoeddus – er enghraifft, cyflawni ein rôl ddiogelu
- Rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol
- Angen cyfreithlon i ddefnyddio gwybodaeth at ddiben penodol nad yw'n torri'n anghyfiawn ar eich hawliau neu'ch rhyddid

Pan fydd gwybodaeth bersonol categori arbennig (sensitif) yn cael ei phrosesu, mae angen amod Erthygl 9 dilys hefyd. Yn yr achos hwn, yr amod yw Erthygl 9 (2)(g) am resymau er budd cyhoeddus sylweddol.

Storio'ch data

Mae'r holl wybodaeth a gofnodwn yn cael ei storio'n ddiogel ac yn unol â safonau diogelwch gwybodaeth a deddfwriaeth diogelu data.

Pa mor hir ydyn ni'n cadw'ch gwybodaeth?

Dim ond cyhyd ag y bo angen y bydd y cyngor yn cadw'ch gwybodaeth. Mae'r hyd yr ydym yn cadw gwahanol wybodaeth yn amrywio gan fod hyn yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arfer gorau. Gall peth o'r wybodaeth sydd gennym fod yn rhan o gofnod addysg y plentyn a chaiff ei chadw tan ben-blwydd y plentyn yn 25 oed. Gellir

cael manylion llawn pa mor hir yr ydym yn cadw gwybodaeth bersonol benodol trwy gysylltu â rheolwr y rhaglen Dechrau'n Deg: Sherelle.Jago@Blaenau-Gwent.Gov.Uk / 01495 354786.

Darparu gwybodaeth gywir

Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth gywir a chyfoes amdanoch chi er mwyn asesu eich anghenion a darparu'r gwasanaethau priodol. Os yw unrhyw rai o'ch manylion wedi newid, neu os ydynt yn newid yn y dyfodol, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym cyn gynted â phosibl fel y gallwn ddiweddarau'ch cofnodion.

Eich hawliau o dan y gyfraith diogelu data

Mae diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i destunau data (y rhai y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw):

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd
- Hawliau ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun (i weld data personol a gedwir amdanoch) – anfonwch e-bost at: dataprotection@blaenau-gwent.gov.uk

Mae mwy o wybodaeth am eich hawliau ar gael o: WWW.ICO.org.UK

I roi un o'ch hawliau ar waith, cysylltwch â maes y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn: Dechrau'n Deg – Sherelle.Jago@Blaenau-Gwent.Gov.UK
Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar – Bobbie-Jo.Swift@Blaenau-Gwent.Gov.UK

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi delio â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon i gael mwy o wybodaeth am y broses hon:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/cwynion-a-chanmoliaeth/cwynion-gwasanaethau-cymdeithasol/>